ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Rheoliadau Tribiwnlys Prisio (Cymru) 2005

Bu'r Pwyllgor yn ystyried *Rheoliadau Tribiwnlys Prisio (Cymru) 2005* yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2005.

Cytunodd yr aelodau ag egwyddor y ddeddfwriaeth sef creu Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio unedig i Gymru. Bu iddynt ofyn am eglurhad ynghylch:

– aelodaeth a dulliau gweithredu Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru a Chyngor Llywodraethu Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru, ac yn arbennig y derminoleg a ddefnyddir yn y rheoliadau; ac
– arwyddocâd caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi person i'r Cyngor Llywodraethu fel y nodir yn Rhan 11, rheoliad 9 o'r rheoliadau.

Cadarnhawyd:

– mewn perthynas â'r Cyngor Llywodraethu, y byddai'r term 'Cyfarwyddwr y Cyngor Llywodraethu' a 'Dirprwy Gyfarwyddwr y Cyngor Llywodraethu' yn cael ei ddefnyddio yn awr. Y rheswm dros hyn oedd fod y defnydd o'r term 'Llywydd y Cyngor Llywodraethol' a 'Dirprwy Lywydd y Cyngor Llywodraethol' mewn fersiwn drafft cynharach o bosibl yn peri dryswch oherwydd y defnydd o'r term 'Llywydd' mewn gwahanol gyd-destun o fewn y rheoliadau hyn.

– na fyddai unrhyw berson a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn gymwys i weithio fel Cyfarwyddwr y Cyngor Llywodraethu.

Awgrymodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo'r rheoliadau heb eu diwygio.

Ann Jones AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus